# Addysgu'n Drawsgwricwlaidd yng Nghyfnod Allweddol 2

Kirsty Thomas - 1300704

ECAD6012/C

**Cyflwyniad**

Yn y poster yma cyflwynir dau fodel trawsgwricwlaidd a thrafod esiamplau i'w weithredu yn y dosbarth. Y modelau trawsgwricwlaidd trafodwyd yw amlddisgyblaethol a hierarchaidd o dacsonomeg Barnes (2011). Pwrpas addysgu'n drawsgwricwlaidd yw datblygu a throsglwyddo gwybodaeth a sgiliau wrth ddefnyddio sawl pwnc yn integredig er mwyn llwyddo yn nawr, ac am oes. Nodwyd Llywodraeth Cymru (2019) pwysigrwydd addysgu'n drawsgwricwlaidd yng nghwricwlwm Cymru, am ei fod yn "yn sail i bron pob math o ddysgu" ac yn ei gefnogi i lwyddo ac i gymryd rhan yn y byd modern.

**Y model Hierarchaidd**

Mae'r model hierarchaidd yn caniatáu addysgu yn y pwnc craidd, ond sy'n hefyd yn cael ei chefnogi gan bynciau eraill sylfaenol. I ddefnyddio'r model yma'n effeithiol, dylir y pynciau i gyd sy'n cynnwys, cael mesuriad yn y dysgu i gefnogi'r addysgu yn y pwnc craidd. Mae'n hanfodol bod yr athro/awes yn pwysleisio nodau dysgu yn y pwnc craidd, a hefyd y pynciau sylfaenol a defnyddir. Dangosir y model i fod yn llwyddiannus, ond nid yw'n cael ei defnyddio yn ddigon aml na effeithiol achos ei chymhlethdod (Morris, 1995).

**Gweithgareddau model hierarchaidd**

Ar gyfer blwyddyn 6 yw'r gweithgareddau yma, sy'n cael ei gweithredu dros gyfnod o dair gwers. Plas Margam yw'r thema, gan edrych yn ddyfnach i mewn i hanes o'r plasty, y pwnc craidd yn yr achos yma yw hanes. Y dasg gyntaf fydd i arlunio lluniau ei hun o'r plasty, gan ddefnyddio dim ond disgrifiadau'r athro. Bydd hawl gan y disgyblion i ofyn cwestiynau i'r athro/awes sydd yn gallu cael ei hateb 'ie' neu 'na'. Bydd y dasg yma yn datblygu sgiliau gwrando a chyfathrebu'r disgyblion sydd yn cysylltu â "ymateb i eraill gyda chwestiynau a sylwadau sy'n canolbwyntio ar resymau, goblygiadau a chamau nesaf." a "gwrando'n ofalus ar gyflwyniadau gan ddangos dealltwriaeth" (Llywodraeth Cymru, 2008) o'r fframwaith llythrennedd. Yn y wers nesaf, bydd y disgyblion yn creu llinell amser, i nodi hanes a digwyddiadau'r Plas yn weledol. Cysylltir hyn â "dewis a llunio siartiau, diagramau a graffiau priodol a chanddynt raddfeydd addas." (Llywodraeth Cymru, 2008).

**Manteision**

- Gallu gwella defnydd pynciau 'lleiaf'
- Profiadau llaw gyntaf
- Pynciau 'lleiaf' yn fwy gwerthfawr

**Cyfyngiadau**

- Cymleth i gynllunio
- Cymleth i weithredu




Barnes, J. (2011). Cross-curricular Learning 3-14. (2nd ed.). London: Sage.

**Manteision a chyfyngiadau addysgu'n drawsgwricwlaidd**

**Mae addysgu'n drawsgwricwlaidd yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion;**

-Datblygu sgiliau
-Deall pethau'n well wrth gyfuno
-Codi safonnau a chyrhaeddiadau

**Anfanteision o addysgu'n drawgwricwlaidd;**

-Gallu bod yn ddryslyd
-Asesu'n annoddach
-Lleihau gwybodaeth pwnc

Mae Donaldson yn arwain Cymru tuag at cwricwlwm sy'n seiliedig ar addysgu'n drawsgwricwlaidd wrth gyfuno'r pynciau i mewn i feysydd dysgu a phrofiad. Nodir yn y ddogfen Dyfodol Llwyddiannus bod angen fwyfwy o sgiliau trawsgwricwlaidd er mwyn i blant ffynnu am weddill eu bywydau (Donaldson, 2015). Cytunwyd Barnes (2011) gyda Donaldson gan nodi gall y dull trawsgwricwlaidd bod yn llwyddiannus i ddatblygu awydd disgyblion, cadw diddordeb a chodi safonnau.

**Y model Amlddigyblaethol**

Ysgogiad i ddatblygu dealltwriaeth mewn dau bwnc yw'r model amlddisgyblaethol, mae'r model yn cefnogi dysgu a chymhwyso sgiliau cwmpasog.

Mae'r model amlddisgyblaethol wedi cael eu profi i ddatblygu;

- dealltwriaeth er mwyn adalw gwybodaeth yn gyflymach
- sawl safbwynt ar gyfer dealltwriaeth
- cefnogi dyfnder yn y dysgu (ConnectEd, 2010)

Nodwyd Barnes (2011) i beidio gor gymhlethu'r model gan ychwanegu gormod o bynciau.

**Gweithgareddau model aml-ddisgyblaethol**

Bydd y gweithgaredd yma yn addas ar gyfer blwyddyn 6. Dechreuir gan ddefnyddio sbardun er mwyn daenu sylw a diddordeb y disgyblion sef taith i'r dref leol. Bydd y gwersi yn para dros dwy ddiwrnod. Pwrpas y daith yw bod yn ditectifs i ddarganfod 'beth ddigwyddodd i Lulu'. Yn ystod y daith, bydd yna gliwiau er mwyn i'r disgyblion darganfod beth ddigwyddodd. Bydd cyfle i'r disgyblion i ddefnyddio mapiau gan ddefnyddio cyfarwyddiadau, ac i dracio lle ydynt ar y map. Ar ddiwrnod arall bydd cyfle gan y disgyblion i ysgrifennu datganiad wrth chwarae rôl ditectif. Bydd hon yn cefnogi "addasu strwythurau wrth ysgrifennu i gyd-destunau gwahanol, e.e. adrodd am ddigwyddiad, ymchwiliad neu arbrawf" (Llywodraeth Cymru, 2008) yn y rhaglen astudio Cymraeg a "Trwy weithgareddau ymarferol a gwaith ymchwil eu hunain yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr awyr agored, bydd y dysgwyr yn datblygu sgiliau i gasglu a gwneud synnwyr o wybodaeth, defnyddio mapiau, meddwl yn greadigol a rhannu syniadau trwy drafod." (Llywodraeth Cymru, 2008) yn y rhaglen astudio Daearyddiaeth.

**Manteision**

-Sbarduno'r disgyblion
-Llawer o ffyrdd i gael mynediad i wybodaeth
- Rhoi profiadau (
- Rhwydd i asesu a dilyniant

**Cyfyngiadau**

Gallu cymlethu wrth gyfuno mwy nag un pwnc
-Llawer o gynllunio
- Angen hyder mewn gwybodaeth pwnc athro




Barnes, J. (2011). Cross-curricular Learning 3-14. (2nd ed.). London: Sage.

**Rhestr cyfeirnodi**

Barnes, J. (2011). Cross-curricular Learning 3-14. (2nd ed.). London: Sage.

Llywodraeth Cymru. (2019). Canllaw i Gwricwlwm i Gymru 2022. Ar gael yn: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-drafft-i-gymru-2022/canllaw-i-gwricwlwm-i-gymru-2022 [mynediad: 9/12/19]

Donaldson, G. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus.* Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/ publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf [mynediad: 16/12/19]

# Rhestr Cyfeirnodi


ConnectEd. (2015). *Designing Multidisciplinary Integrated Curriculum Units.* Ar gael yn: https://casn.berkeley.edu/wp-content/uploads/2019/03/LL_Designing_Curriculum_Units_2010_v5_web-1.pdf [mynediad: 6/12/19]

Morris, C N. (1995). *Hierarchical Models for Educational Data: An Overview.* Ar gael yn: *https://journals.sagepub.com/doi/abs/10.3102/10769986020002190?journalCode=jebb* [mynediad: 9/12/19]

Llywodraeth Cymru. (2019). *Canllaw i Gwricwlwm i Gymru 2022.* Ar gael yn: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-drafft-i-gymru-2022/canllaw-i-gwricwlwm-i-gymru-2022 [mynediad: 9/12/19]

Llywodraeth Cymru. (2008). *Fframwaith Llywthrennedd a Rhifedd.* Ar gael yn: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-cymru-2008/fframwaith-llythrennedd-a-rhifedd-cenedlaethol-fersiwn-cwricwlwm-cymru-2008/fframwaith/?lang=en#eyJpIjpbeyJhIjoxfSx7ImEiOjB9XSwiYyI6W3siYSI6MH0seyJhIjowfSx7ImEiOjB9LHsiYSI6MH0seyJhIjowfSx7ImEiOjB9LHsiYSI6MH0seyJhIjowfSx7ImEiOjB9LHsiYSI6MH0seyJhIjowfSx7ImEiOjF9LHsiYSI6MH0seyJhIjowfSx7ImEiOjB9LHsiYSI6MH0seyJhIjowfSx7ImEiOjB9XX0= [mynediad: 9/12/19]

Barnes, J. (2011). Cross-curricular Learning 3-14. (2nd ed.). London: Sage.

Donaldson, G. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus.* Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf [mynediad: 16/12/19]

https://casn.berkeley.edu/wp-content/uploads/2019/03/LL_Designing_Curriculum_Units_2010_v5_web-1.pdf

Llywodraeth Cymru. (2008). Daearyddiaeth yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru. Ar gael yn: https://hwb.gov.wales/storage/19434875-c906-49b4-8fda-dd76e1f7f8c3/daearyddiaeth-yng-cwricwlwm-cenedlaethol-cymru.pdf [mynediad: 18/12/19]

Llywodraeth Cymru. (2008). Rhaglen Astudio ar gyfer Cymraeg Cyfnodau Allweddol 2–4. Ar gael yn: https://hwb.gov.wales/storage/5982ca20-088a-4035-8dad-57c179b3b058/cymraeg-rhaglen-astudio-cyfnodau-allweddol-2-4.pdf [mynediad: 18/12/19]